

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Llywodraeth yr Alban
Llywodraeth Cymru

Stamp swyddfa APHA

Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981
Gorchymyn Twbercwlosis (Lloegr) 2014
Gorchymyn Twbercwlosis (Ceirw a Chamelidau) (Lloegr) 2014
Gorchymyn Twbercwlosis mewn Anifeiliaid Penodedig (Yr Alban)
2015
Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011 (fel y'i diwygiwyd)

Trwydded yn Caniatáu i Anifeiliaid Heblaw am Anifeiliaid Buchol gael eu Symud yn Gyffredinol o Safle sydd dan Gyfyngiadau TB yn Uniongyrchol i Ladd-dy Trwyddedig

Enw a chyfeiriad y sawl yr anfonir y Drwydded hon ato

Cod post:

Rhif y Daliad
(CPHH):

1. Rwy'n caniatáu, yn amodol ar yr amodau a restrir dros y dudalen, i anifeiliaid heblaw am anifeiliaid buchol gael eu symud yn gyffredinol i'w lladd yn uniongyrchol mewn lladd-dy trwyddedig o safle yr ydych yn berchen arno neu sydd wedi'i feddiannu gennych o dan Rif y Daliad (CPHH) uchod a/neu gyfyngiadau symud TB.

Anifeiliaid y gellir eu symud i'w lladd o dan y drwydded hon

2. Gall pob anifail heblaw am anifeiliaid buchol ar y safle gael ei symud i'w lladd yn uniongyrchol ar unrhyw adeg o dan y drwydded hon **heblaw am** unrhyw anifeiliaid:
 - y nodwyd eu bod yn adweithyddion prawf, yn adweithyddion amhendiant neu'n gysylltiadau uniongyrchol gan Arolygydd Milfeddygol yr Ysgrifennydd Gwladol/Gweinidogion yr Alban/Gweinidogion Cymru, neu
 - sydd wedi cael prawf TB, ond sy'n aros i'r canlyniadau gael eu darllen gan Arolygydd neu Filfeddyg Cymeradwy.
3. Dim ond o dan drwydded benodol ar wahân, a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol/Gweinidogion yr Alban/Gweinidogion Cymru y gellir symud anifeiliaid yn unrhyw un o'r categorïau a restrir uchod o dan baragraff 2.

Mae'r drwydded hon yn parhau i fod yn ddilys nes y caiff cyfyngiadau TB eu codi neu nes y caiff ei diddymu gan yr Ysgrifennydd Gwladol/Gweinidogion yr Alban/Gweinidogion Cymru.

Llofnod

Dyddiad

Arolygydd yr Ysgrifennydd Gwladol/Gweinidogion yr Alban/Gweinidogion Cymru

Enw mewn PRIFLYTHRENNAU

Rhif ffôn (gan gynnwys y cod deialu cenedlaethol)

Nid yw'r Drwydded hon yn disodli unrhyw gyfyngiadau ar symud anifeiliaid a osodwyd oherwydd unrhyw glefyd anifeiliaid arall

Amodau Cyhoeddi

1. Cadw anifeiliaid sy'n cael eu cludo ar wahân

Wrth eu symud, ni ddylai anifeiliaid sy'n teithio o dan drwydded ddod i gysylltiad ag unrhyw anifeiliaid eraill heblaw'r rheini sy'n cael eu symud i'w lladd o dan drwydded debyg. Nodir eithriadau eraill i'r rheol gyffredinol hon isod.

Ni all anifeiliaid eraill o safleoedd heb gyfyngiadau arnynt deithio yn yr un cerbyd â'r anifeiliaid trwyddedig o safleoedd sydd dan gyfyngiadau TB oni chânt:

- eu casglu cyn i unrhyw un o'r anifeiliaid trwyddedig gael ei lwytho ar y cerbyd, a
- eu symud i gael eu lladd yn yr un lladd-dy.

Gall rhywogaethau eraill o anifeiliaid gael eu cludo yn yr un cerbyd yn amodol ar y rheoliadau sy'n rheoli cludo anifeiliaid, ond dim ond os ydynt yn cael eu symud i'w lladd yn yr un lladd-dy.

Os caiff yr anifeiliaid eu symud mewn cerbyd ni ddylid eu dadlwytho (heblaw mewn argyfwng) nes eu bod wedi cyrraedd y lladd-dy trwyddedig.

2. Glanhau a diheintio cerbydau a chynwysyddion

Dylid glanhau a diheintio unrhyw ddull trafniadaeth a ddefnyddir i gludo anifeiliaid o dan y Drwydded hon yn unol â gofynion Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Lloegr) (Rhif 3) 2003 a'r Gorchymynion cyfatebol sy'n berthnasol i Gymru a'r Alban.

Yn ogystal, rhaid i'r diheintydd a ddefnyddir gael ei gymeradwyo i'w ddefnyddio yn erbyn twbercwlosis o dan Orchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Lloegr) 2007 a'r Gorchymynion cyfatebol sy'n berthnasol i Gymru a'r Alban a'i ddefnyddio yn unol â gofynion cymeradwyaeth o'r fath, yn enwedig y gyfradd wanhau.

3. Marcio anifeiliaid i'w symud i gael eu lladd

Rhaid i anifeiliaid a gaiff eu symud o dan y drwydded hon gael eu marcio ar hyd eu cefnau gyda streipen oren.

Nodiadau

1. Caiff y drwydded hon ei dirymu gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) os na fydd unrhyw brofion TB gofynnol ar y fuches wedi'u cwblhau o fewn 30 diwrnod i'r dyddiad disgwylidig.
2. Caiff y Drwydded hon ei chyflwyno i berchennog yr anifeiliaid sy'n cael eu symud.
3. Os rhoddir dŵr i'r anifeiliaid trwyddedig wrth eu symud, rhaid cyflenwi'r dŵr mewn bwced glân yn syth o dap ac nid o gafn dŵr. Yna, mae'n rhaid diheintio'r fwced.
4. Caiff y broses o symud yr anifeiliaid yn unol â'r drwydded hon ei nodi yn y cofnod y mae'n ofynnol ei gadw o dan y Rheoliadau Adnabod perthnasol.
5. Gellir diddymu'r drwydded hon unrhyw bryd drwy hysbysiad gan yr Adran hon.
6. Ni chaiff unrhyw anifail eu symud o dan y drwydded hon heblaw er mwyn ei ladd.
7. Rhaid i geidwad yr anifeiliaid sicrhau eu bod yn teithio i gael eu lladd gyda'r holl ddogfennaeth angenrheidiol, a ddylai gael eu trosglwyddo i'r cludydd.
8. Rhaid rhoi gwybodaeth am y gadwyn fwyd a rhaid iddi gael ei hanfon gyda'r anifeiliaid pan gânt eu hanfon i'r lladd-dy. Mae manylion ar gael yn www.food.gov.uk
9. Rhaid i'r broses o symud yr anifeiliaid yn unol â'r drwydded hon gael ei chofnodi a rhaid enwi'r anifeiliaid a nodir yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol ar gyfer y rhywogaethau a gaiff eu symud.

Ni fydd yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn gyfrifol am unrhyw golledion nac anghyfleustra i berchennog am ei fod wedi methu â darparu unrhyw ddogfennaeth angenrheidiol arall gyda'r anifail.

Gwybodaeth am Dda Byw Glân a'r Gadwyn Fwyd - taflen wybodaeth APHA

Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhoi cyngor i ffermwyr ar gynhyrchu anifeiliaid glân i'w lladd ac yn pwysleisio pa mor bwysig ydyw bod ceidwaid da byw yn cyflwyno anifeiliaid sydd i'w symud a'u lladd mewn cyflwr glân a sych ynghyd â'r Ffurflenni Gwybodaeth perthnasol am y Gadwyn Fwyd.

Gall darparu anifeiliaid glân i'w lladd fod yn dasg anodd, yn enwedig mewn tywydd gwlyb a phan fyddant dan do yn ystod y gaeaf pan fydd prinder gwellt addas efallai ar gyfer sarn. Os bydd crwyn anifeiliaid wedi'u halogi ag ysgarthion ar adeg eu lladd, mae risg wirioneddol y caiff y cig ei halogi yn ystod y broses drin gan facteria niweidiol fel E.coli 0157, Campylobacter a Salmonella.

Ni all hyd yn oed y safonau uchaf o hylendid mewn lladd-dai warantu na chaiff y carcass ei halogi a'i groeshalogi gan garcasau cyfagos yn ystod y broses drin. Mae canlyniadau ymchwil wedi dangos po fwyaf brwnt yw'r croen, y mwyaf tebygol ydyw y caiff y carcass ei halogi a bydd y risg i iechyd pobl yn fwy. Gall crwyn gwlyb hefyd gynyddu'r risg y caiff bacteria eu trosglwyddo yn haws.

Caiff pob un o'r anifeiliaid yn y lladd-dy eu harchwilio gan y Gweithredwr Busnes Bwyd cyn eu lladd er mwyn sicrhau eu bod yn lân ac yn sych. Er mwyn atal y cig rhag cael ei halogi a lleihau risgiau i iechyd y cyhoedd, gall y Gweithredwr Busnes Bwyd wrthod lladd unrhyw anifail nad yw'n bodloni'r safon hylendid ofynnol.

Caiff y meini prawf ar gyfer nodi hylendid anifeiliaid eu rhannu'n bum categori, yn amrywio o glân a sych i brwnt a gwlyb. Dim ond categorïau 1 a 2 (sych a glân/ychydig yn frwnt a sych/tamp) fyddai'n cael caniatâd fel arfer i fynd ymlaen i gael eu lladd i'w bwyta gan bobl heb fod angen cymryd camau pellach.

Anifeiliaid sydd wedi adweithio i'r prawf TB

Lle mae anifeiliaid wedi cael eu datgelu fel rhai sydd wedi adweithio i'r prawf TB, dylai ceidwaid nodi'r canlynol:

- mae'n ofynnol i anifeiliaid sydd wedi adweithio i'r prawf TB a anfonir i gael eu lladd fodloni'r un safonau hylendid a gymhwysir at bob anifail arall a anfonir i gael ei ladd
- Defnyddir y gwerth achub a geir am anifeiliaid o'r fath a gaiff eu lladd, i wrthbwysu'r iawndal a delir i ffermwyr ac mae'n helpu i ategu hyfywedd trefniadau iawndal presennol o ran TB sy'n seiliedig ar brisiad anifeiliaid sydd wedi adweithio i'r prawf TB.

Lluniwyd dau lyfryn canllaw i roi cyngor i ffermwyr da byw ar sut i gadw eu hanifeiliaid yn lân cyn eu lladd. Mae'r llyfrynau hyn yn cynnwys canllawiau ymarferol i geidwaid da byw ar sut i gadw anifeiliaid yn lân cyn eu lladd. Am ragor o wybodaeth am y polisi da byw glân cysylltwch â:

Cyhoeddiadau yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Ffôn: 0845 606 0667

E-bost: foodstandards@eclogistics.co.uk

Hefyd ar y wefan yn: <http://www.food.gov.uk/foodindustry/farmingfood/cleancattleandmeatsafety>

Ffurflenni Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd

Efallai hefyd y bydd angen ffurflenni Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd ar weithredwyr busnesau bwyd y gellir eu cael o'r Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar-lein yn:

www.food.gov.uk/foodindustry/guidancenotes/meatregsguid/fciguideance

- Gwartheg a Lloi Cymru a Lloegr: <http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/fciengwal0311.pdf>
- Defaid a Geifr Cymru a Lloegr: <http://www.food.gov.uk/multimedia/worddocs/fciwssheep.doc>
- Moch Cymru a Lloegr: <http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/pigguidance.pdf>
- Gwartheg a Lloi yr Alban: <http://www.food.gov.uk/multimedia/worddocs/fciscotcattle.doc>
- Defaid a Geifr yr Alban: <http://www.food.gov.uk/multimedia/worddocs/fciscotsheep.doc>
- Moch yr Alban: www.food.gov.uk/scotland/regsscotland/regsguidscot/pigfciscotland
- Anifeiliaid hela sy'n cael eu ffermio ac enghreifftiau ar gyfer rhywogaethau eraill: www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/migparttwo.pdf#page=193

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.